**Pecyn Gweithgareddau**

# A CHRISTMAS CAROL

**Gan Gary Owen**



Fersiwn Gymraeg

## TROSOLWG

Mae'r pecyn yma'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau i blant y gallwch eu gwneud mewn unrhyw drefn, un ai'n annibynnol, gydag oedolyn, neu mewn grŵp. Os ydych chi'n ei ddefnyddio cyn gweld *A Christmas Carol*, neu ar ôl ei gweld, gobeithio y bydd yn ysbrydoli llwyth o greadigrwydd ac y byddwch chi'n mwynhau archwilio prif themâu'r sioe.

Os ydych chi'n dod i weld *A Christmas Carol* gyda'ch ysgol, cadwch lygad am ein *Syniadau i Athrawon* sy'n cynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau ymestyn ar gyfer eich ystafell ddosbarth.

## CYNNWYS


**RHAN 1: CYNLLUNIO BYD Y DDRAMA** Tudalen 3

- **BETH YW PWRPAS CYNLLUNIO THEATR?** Tudalen 3
- **MEDDWL AM LIWIAU** Tudalen 4
- **CREU BWRDD NAWS** Tudalennau 5 a 6

**RHAN 2: MYFYRIO AR AMSER** Tudalen 7

- **COFNOD DYDDIADUR O OES FICTORIA** Tudalen 7
- **Y GORFFENNOL, Y PRESENNOL A'R DYFODOL** Tudalen 8
- **BETH SY'N BWYSIG I FI** Tudalen 9

**RHAN 3: HWYL Y NADOLIG** Tudalen 10

- **CHWILAIR A CHRISTMAS CAROL** Tudalen 10
- **CREU PWDIN DOLIG** Tudalennau 11 a 12

# RHAN 1: CYNLLUNIO BYD Y DDRAMA

## GWEITHGAREDD 1: BETH YW PWRPAS CYNLLUNIO THEATR?

Mae ein fersiwn ni o *A Christmas Carol* wedi'i gosod yng Nghaerdydd yn Oes Fictoria yn y flwyddyn 1843. Er mwyn creu byd y ddrama, mae nifer o elfennau cynllunio sy'n cefnogi'r gwaith o adrodd y stori ac yn helpu i ddeffro dychymyg y gynulleidfa. Mae pob un yn cael effaith wahanol ar y gynulleidfa ac maen nhw'n atgyfnerthu themâu'r ddrama.

Darllenwch y disgrifiadau isod i weld a allwch chi eu paru â'r gwahanol elfennau cynllunio.

| | |
|---|---|
| Cynllun y Set | Mae'n datgelu personoliaeth a statws cymeriad drwy ddillad ac ategolion. Mae'n gallu newid drwy gydol y perfformiad i nodi datblygiad y cymeriad. |
| Cynllun y Gwisgoedd | Mae'n creu naws ac awyrgylch drwy liw a thanbeidrwydd. Mae'n helpu i nodi pa amser o'r dydd yw hi a'r lleoliad, ac yn hoelio sylw'r gynulleidfa. |
| Cynllun y Goleuo | Mae'n darparu ymdeimlad o leoliad ac yn creu effaith emosiynol gyda sain amgylchynol. Mae'n atgyfnerthu'r ddrama a'r perfformiad drwy effeithiau sain penodol. |
| Cynllun y Sain | Mae'n creu amgylchedd ffisegol y ddrama. Mae'n cyfleu'r lleoliad ac yn sefydlu awyrgylch drwy'r defnydd o liw, gwead a maint. |

## GWEITHGAREDD 2: MEDDWL AM LIWIAU

Mae lliw yn rhan annatod o lawer o elfennau cynllunio, gan gynnwys gwisgoedd, set a goleuo. Meddyliwch am y geiriau sydd wedi'u rhestru isod. Sut ydych chi'n meddwl y gallai'r emosiynau, y syniadau a'r ansoddeiriau yma gael eu cynrychioli gan wahanol liwiau? Ceisiwch feddwl am yr ystod lawn o liwiau a byddwch yn benodol ac yn ddisgrifiadol yn eich dewis.

| GAIR | LLIW |
|---|---|
| Oer | *Glas golau rhewllyd, gwyn crisialog* |
| Llawenydd | |
| Breuddwydiol | |
| Rhamantus | |
| Cyfoethog | |
| Tlawd | |
| Bore | |
| Nos | |
| Ifanc | |
| Hen | |

## GWEITHGAREDD 3: CREU BWRDD NAWS

Defnyddiodd ein Cynllunydd, Hayley Grindle, fyrddau naws i'w helpu i greu ei gweledigaeth ar gyfer y set a'r gwisgoedd ar gyfer *A Christmas Carol*. Mae bwrdd naws yn cynnwys delweddau, gan gynnwys ffotograffau neu ddarluniau, lliwiau, gweadau a hyd yn oed geiriau allweddol, sydd oll yn rhoi blas o leoliad neu gymeriad. Gallai byrddau naws ar gyfer set hefyd gynnwys darnau pwysig o ddodrefn, ac ar gyfer gwisgoedd weithiau byddai darnau o ddefnydd wedi'u hatodi i'r bwrdd.

Mae cynllunwyr yn gwneud llawer o waith ymchwil i ddatblygu eu syniadau, yn enwedig pan fyddan nhw'n creu set a gwisgoedd ar gyfer gwahanol gyfnodau amser. Mae'n rhaid iddyn nhw feddwl am ddeunyddiau gwahanol ac am beth fyddai pethau wedi cael eu creu allan ohonyn nhw yn y gorffennol.

Mae byrddau naws yn helpu cynllunydd i dynnu'r syniadau allan o'u pen a'u gosod ar bapur fel eu bod yn gallu eu hesbonio i aelodau eraill o'r tîm creadigol. Nawr eich bod wedi meddwl ychydig am y lliw a'r cynllun, dewiswch gymeriad neu leoliad o'r rhestr isod a chreu eich bwrdd naws eich hun. Gallwch ddefnyddio'r templed yma neu ddefnyddio darn mwy o bapur neu gardfwrdd i nodi eich syniadau arno. Gallwch hefyd wneud eich ymchwil eich hun drwy edrych ar ddelweddau neu luniau o oes Fictoria ar-lein.

| CYMERIADAU | LLEOLIADAU |
|---|---|
| Scrooge<br>Jacob Marley<br>Cymeriad Ysbryd Nadolig y Gorffennol, y Presennol neu'r Dyfodol | Y Wyrcws<br>Swyddfa Mr. Fezziwig<br>Cartref y teulu Cratchits |

Cofiwch mai gweld lliwiau ydych chi, ond maen nhw hefyd yn gallu cyfleu teimlad, er enghraifft llwyd metelaidd oer, gwyn rhewllyd, oren tanllyd. Gweadau yw'r hyn rydych chi'n gallu ei deimlo, er enghraifft garw, llyfn, pigog, sidanaidd. Gallai darluniau neu ddelweddau gynnwys mathau o adeiladau, ystafelloedd a dodrefn, neu eitemau o ddillad ac ategolion o'r cyfnod rydych chi'n ei ddarlunio.

***Syniad i Athrawon** – Gallwch ymestyn y gweithgaredd yma drwy wahodd y disgyblion i gyflwyno'u byrddau naws i weddill y dosbarth, neu ddefnyddio hen focs esgidiau i greu model bocs o'u bwrdd naws, sy'n cynnwys popeth maen nhw wedi meddwl amdano mewn ffurf 3D. Gellir creu eitemau o gardfwrdd a darnau o ddeunydd yn ogystal â phaent a beiros lliw.*

## LLIWIAU

## GWEADAU

## DELWEDDAU

# RHAN 2: MYFYRIO AR AMSER

## GWEITHGAREDD 4: COFNOD DYDDIADUR O OES FICTORIA

Roedd bywyd yn wahanol iawn i blant yn oes Fictoria ac roedd y ffordd roedden nhw'n cael eu trin ac ansawdd eu bywydau yn dibynnu ar eu dosbarth cymdeithasol. Roedd gan blant mewn cartrefi cyfoethog deganau clocwaith i chwarae â nhw, a gweision i ofalu amdanyn nhw. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i lawer o blant mewn cartrefi tlawd weithio i helpu eu teuluoedd, yn aml yn gweithio oriau hir yn gwneud gwaith anodd a pheryglus am ychydig bach iawn o arian. Doedd ganddyn nhw ddim teganau i chwarae â nhw ond weithiau bydden nhw'n creu rhai eu hunain. Yn *A Christmas Carol*, mae Ebbie Scrooge yn cael ei chymryd oddi wrth ei mam a'i gorfodi i weithio oherwydd ei bod yn dlawd. Defnyddiwch y gofod isod i ysgrifennu eich cofnod dyddiadur eich hun ar gyfer diwrnod ym mywyd plentyn oedd yn byw yng Nghaerdydd yn 1843. Gallwch ddod o hyd i ragor o syniadau i'ch helpu i ysgrifennu drwy ymchwilio i'r pwnc ar-lein.

***Syniad i Athrawon:*** *Dewch â chofnodion dyddiadur y disgyblion yn fyw drwy wneud gwaith actio byrfyfyr, creu delweddau llonydd, neu ddyfeisio golygfeydd grŵp byr yn seiliedig ar rannau allweddol o gofnod dyddiadur.*

# GWEITHGAREDD 5: Y GORFFENNOL, Y PRESENNOL A'R DYFODOL

Yn *A Christmas Carol* mae Ebbie Scrooge yn cwrdd â thri ysbryd sy'n ei hatgoffa am y Nadolig yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Beth ydych chi'n ei gofio am eich gorffennol, sut berson ydych chi nawr; a beth ydych chi'n meddwl fydd yn eich dyfodol?

Defnyddiwch y gofod isod i fyfyrio ar sut oeddech chi fel plentyn bach - beth oeddech chi'n ei fwynhau neu'n edrych ymlaen ato, pa bethau rydych chi wedi dysgu eu gwneud neu rydych chi'n eu mwynhau mwy wrth i chi dyfu'n hŷn, a beth yw eich gobeithion a'ch dyheadau ar gyfer eich dyfodol?

**GORFFENNOL**

**PRESENNOL**

**DYFODOL**

***Syniad i Athrawon:*** *Defnyddiwch yr ymarfer yma fel man cychwyn ar gyfer cynnal sgwrs gyda'r plant am sut olwg fydd ar y dyfodol. Faint fydd wedi newid ers cyfnod Charles Dickens?*

## GWEITHGAREDD 6: BETH SY'N BWYSIG I FI

Yn *A Christmas Carol* mae Scrooge yn dysgu yn y pen draw nad arian, mewn gwirionedd, yw'r peth pwysicaf wedi'r cyfan.

Beth yw'r pethau sydd bwysicaf i chi?

Ar y llinellau isod, lluniwch gerdd am beth sy'n bwysig i chi, gan ddefnyddio'r llythrennau ar y dechrau i ddechrau eich brawddeg. Gallai hyn gynnwys ffrindiau, teulu, diddordebau, neu bethau eraill sy'n bwysig i chi, fel diogelu'r amgylchedd.

**B** ______________________________

**E** ______________________________

**T** ______________________________

**H** ______________________________

**S** ______________________________

**Y** ______________________________

**N** ______________________________

**B** ______________________________

**W** ______________________________

**Y** ______________________________

**S** ______________________________

**I** ______________________________

**G** ______________________________

**I** ______________________________

**F** ______________________________

**I** ______________________________

***Syniad i Athrawon:*** *Ewch ati i greu arddangosfa o gerddi'r disgyblion a'u gwahodd i addurno eu cerddi, neu wneud borderi ar eu cyfer, gyda lluniau o'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw.*

# RHAN 3: HWYL Y NADOLIG

## GWEITHGAREDD 7: CHWILAIR A CHRISTMAS CAROL

Allwch chi ddod o hyd i gymeriadau *A Christmas Carol* sydd wedi'u cuddio yn y chwilair?

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| V | D | E | L | S | Z | T | E | H | F | V | Y | T | B | G | X | U | C | W | X |
| T | Z | Y | K | U | I | Q | S | K | U | B | E | T | C | U | Z | F | I | G | R |
| D | L | A | F | U | H | T | Q | H | E | Q | I | E | P | N | H | E | J | C | L |
| A | X | C | G | O | R | F | F | E | N | N | O | L | W | A | Q | H | C | Y | L |
| O | L | O | D | O | D | J | K | Z | X | N | O | M | X | U | F | Q | U | P | A |
| U | I | Z | W | Y | S | O | A | S | M | C | T | J | D | I | E | G | N | P | W |
| F | X | H | L | M | F | Q | L | L | D | Z | W | M | W | Q | M | L | E | R | U |
| V | A | Y | E | K | B | O | B | C | R | A | T | C | H | I | T | Y | G | E | E |
| R | S | W | B | W | G | T | X | S | X | I | X | C | J | W | X | G | N | S | G |
| G | U | R | A | E | U | A | E | X | R | Y | V | B | E | Y | P | R | X | E | H |
| Z | E | B | S | A | Z | D | U | M | J | D | P | X | A | C | H | H | A | N | S |
| J | F | Q | F | R | Y | S | B | R | Y | D | U | C | J | U | L | H | T | N | F |
| C | E | D | C | E | R | C | W | V | M | T | B | H | P | D | B | K | U | O | F |
| S | S | Q | F | R | Z | H | N | Y | A | A | Z | U | R | O | E | J | Y | L | I |
| X | F | E | P | C | C | Z | P | J | F | T | R | J | M | V | A | C | K | G | U |
| Q | Y | M | W | P | Z | W | I | N | A | B | J | L | Q | V | U | X | U | T | M |
| D | D | X | N | Q | N | X | S | W | W | P | L | O | E | F | K | C | T | G | A |
| A | V | E | N | Q | W | B | U | F | I | A | A | V | U | Y | O | O | S | T | F |
| T | I | N | Y | T | I | M | O | T | S | G | B | U | B | P | U | H | Z | J | M |
| K | W | L | Y | Z | X | S | A | Y | H | R | S | C | R | O | O | G | E | Y | Z |

**SCROOGE**

**MARLEY**

**TINY TIM**

**DYFODOL**

**BOB CRATCHIT**

**PRESENNOL**

**YSBRYD**

**GORFFENNOL**

**BEAU**

**FEZZIWIG**

## GWEITHGAREDD 8: CREU PWDIN DOLIG RICE KRISPIES

Ar ddiwedd *A Christmas Carol*, mae Scrooge wedi trawsnewid ac mae'n ymuno yn y wledd a'r dathlu. Beth am roi cynnig ar wneud cacennau Rice Krispies Nadoligaidd?




**CAM 1:** Ychwanegwch y siocled a'r menyn i sosban, a'u toddi'n araf dros wres isel i ganolig.

**CAM 2:** Yna, ychwanegwch y malws melys bach a throwch y cyfan yn araf tan iddyn nhw doddi a chymysgu.

**CAM 3:** Mewn powlen gymysgu fawr, ychwanegwch y Rice Krispies. Arllwyswch y cymysgedd malws melys a siocled drosto, a throwch y cyfan tan fod popeth wedi'i orchuddio. Gadewch i'r cymysgedd oeri.

**CAM 4:** Gan ddefnyddio llwy fwrdd, rhannwch y cymysgedd yn rhannau cyfartal, a rholiwch bob un yn bêl bwdin. Gwlychwch eich dwylo ychydig cyn rholio, mae'n helpu'r pwdin rhag glynu gormod i'ch dwylo.

**CAM 5:** Rhowch nhw ar hambwrdd pobi wedi'i leinio â phapur pobi. Gadewch i'r pwdin oeri yn yr oergell am 30 munud.

***Addurno:***

**CAM 6:** Toddwch y siocled gwyn drwy ychwanegu'r siocled i fowlen fach wrth-wres, a'i rhoi uwch ben sosban o ddŵr sy'n mudferwi. Gwnewch yn siŵr nad yw'r fowlen yn cyffwrdd â'r dŵr. Cynheswch tan fod yr holl siocled wedi toddi.

**CAM 7:** Rhowch y siocled tawdd mewn bag peipio neu fag rhewgell, a'i adael ar yr ochr i oeri.

**CAM 8:** Lliwiwch eisin gwyn gyda'r jel lliw bwyd coch a gwyrdd. Defnyddiwch y gwyrdd ar gyfer y dail celyn, a rholiwch y coch yn beli bach fel aeron.

**CAM 9:** Pan fydd y pwdinau wedi oeri, torrwch ben y bag peipio neu gornel y bag rhewgell, a thaenwch y siocled gwyn dros ben y cyfan. Addurnwch â'r celyn a'r aeron.